# Astudiaeth Achos *Seed to Saucepan*

## Cyflwyniad

Prosiect peilot oedd *Seed to Saucepan* a dargedwyd yn benodol tuag at:

- Oedolion a phobl ifanc sy'n gadael yr ysgol a oedd yn anactif yn economaidd ac a oedd eisiau dysgu a chymryd rhan wrth dyfu a bwyta bwyd eu hunain. Ei nod oedd cyflwyno pobl oedd yn newydd i'r cynllun i'r broses o dyfu, coginio a phrosesu ffrwythau a llysiau, gan gynnwys creu cynnyrch oedd â gwerth ychwanegol. Roedd yn cynnig hyfforddiant mewn amgylchedd dysgu oedd yn addas i bobl sy'n agored i niwed a'r rheini oedd â phrofiad gwaith cyfyngedig.

- Tyfwyr lleol newydd a phresennol i ddatblygu 'hyb' i reoli a phrosesu bwyd sydd dros ben mewn adegau o ddigonedd.

**Nodau'r prosiect *Seed to Saucepan:***

1. Datblygu'r cyfleusterau hyfforddi yn Ashfield i greu profiad dysgu dyfeisgar yn seiliedig ar gynaliadwyedd.
2. Darparu amgylchedd diogel i bobl o gefndiroedd a galluoedd amrywiol i ddysgu sgiliau ynghylch tyfu, coginio prydau bwyd iach a chadw bwyd mewn ffordd integredig.
3. Creu a datblygu ryseitiau newydd a chyflenwadau o gynnyrch organig sydd â gwerth ychwanegol yn seiliedig ar fwyd a dyfir yn lleol.
4. Creu hyb tyfwyr i ddelio gyda chynnyrch lleol sydd dros ben mewn adegau o ddigonedd
5. Cyflwyno model sy'n seiliedig ar y gymuned i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â milltiroedd bwyd, diogelwch bwyd a bwyd sydd dros ben y gellir ei ailadrodd mewn ardaloedd eraill.

Nod y prosiect oedd cynnal sesiynau ar dyfu a choginio bwyd trwy gydol y flwyddyn fel y gallai'r cyfranogwyr weld yr hyn y gallent ei wneud gyda'r hyn y byddant yn ei dyfu ar adegau penodol o'r flwyddyn. Roedd y cyfranogwyr yn dysgu sgiliau sy'n ymwneud â thyfu, plannu, rheoli pridd, cynaeafu, paratoi a chadw bwyd, a storio a labelu. Roedd y sesiynau yn seiliedig ar egwyddorion organig a chynaliadwy.

## Yr Her

Y brif her i'r prosiect oedd y posibilrwydd y gallai unrhyw un fynychu'r gweithdai coginio a garddio a gynhaliwyd yn Ashfield ai peidio.

Her arall oedd lleoliad Ashfield gan nad oes unrhyw gysylltiadau cludiant cyhoeddus felly fe fyddai hynny'n anhawster i unrhyw un nad oedd yn gallu gyrru.

## Yr Ateb

Cynhaliwyd nifer o weithdai coginio a garddio yn Ashfield trwy'r prosiect *Seed to Saucepan* oedd yn cynnwys:

- Clybiau cinio *tiffin* misol
- Dyddiau afalau
- Demo Sant Ffolant
- Bwydo'r pridd
- Gweithdai coginio ar y thema calan gaeaf
- Ffyrdd o storio eich ffrwythau a llysiau
- Gwneud siytni
- Coginio gyda ffrwythau meddal
- Ffyrdd o helpu Ffrwythau a Llysiau i ffynnu
- Coginio gyda ffa o'r ardd
- Pobi Bara a Chacennau
- Cyflwyno 'Hadau am ddim' i'r Gymuned
- Coginio ar gyllideb
- Tyfu llysiau o hadau
- Llysiau wedi'u heplesu

## Y Budd

- Llawer o fuddion cymdeithasol i'r sawl sydd ag anawsterau dysgu.
- Roedd y prosiect wedi annog y gymuned ehangach i ymweld ag Ashfield a mynychu gweithdai.
- Roedd ysgolion wedi cael rhandiroedd ac wedi adeiladu ar y syniad o greu prosiectau eu hunain ar y rhandiroedd
- Roedd grwpiau Gofal Cymdeithasol trwy atgyfeiriadau a rhwydweithio wedi ymweld â'r prosiect..
- Roedd dros 332 o ymwelwyr wedi cymryd rhan mewn gweithdai a drefnwyd gan y prosiect mewn 2 flynedd o weithredu. Y nod gwreiddiol ar ddechrau'r prosiect oedd ar gyfer 100 o ymwelwyr yn y 3 blynedd o weithredu.
- Roedd y prosiect wedi ymgysylltu gyda busnesau lleol tra'n cynnal 'gweithgareddau cyfnewid a ffeirio'

## Y Canlyniad

Roedd y gweithdai coginio yn boblogaidd iawn ond os oedd y prosiect i barhau, byddai llai o weithdai'n cael eu cynnal pob mis gan fod llawer o waith i'w trefnu ac i annog pobl i gofrestru. Cynhaliwyd y gweithdai garddio ar yr un diwrnod â'r gweithdai coginio gyda'r un thema'n cael ei gynnal trwy gydol y diwrnod. Gweithiodd hyn yn dda e.e. Diwrnod Sant

Ffolant. Roedd creu calonnau o frigau helyg a siocledi cartref wedi cyd-fynd yn dda gyda'i gilydd ac wedi profi i fod yn llwyddiant mawr.

Roedd y Clwb Cinio *Tiffin* yn llwyddiant aruthrol gyda phrydau bwyd o safon ragorol yn cael eu creu. Roedd hyn yn annog pobl o bob oedran i fynychu ac ymuno.

Nid oedd y gweithdai GLUT yn llwyddiannus iawn, er bod yn rhain yn syniad da gan eu bod yn gofyn am lawer o fuddsoddiad o ran blwyddyn ar flwyddyn, a llawer o gydlynu gan dyfwyr unigol.

Roedd y prosiect yn gofyn am fwy o oriau staff a mwy o gefnogaeth oddi wrth sefydliadau ac ymddiriedolwyr lleol. Petai hyn wedi digwydd, yna fe fyddai mwy o amser wedi bod i gynnal y gwaith marchnata ar y prosiect gwych. Roedd llawer o amser rheolwr y prosiect yn ymwneud â gwaith gweinyddol i sicrhau fod y gweithdai yn llwyddiannus.

## Deilliannau/Canlyniadau'r Prosiect

| Deilliant (Dangosydd Lefel Achos) | Cyflawnwyd |
|---|---|
| Nifer yr astudiaethau dichonolrwydd | 1 |
| Nifer y rhwydweithiau a sefydlwyd | 1 |
| Nifer y swyddi a ddiogelwyd | 0 |
| Nifer y gweithgareddau peilot a gynhaliwyd/ a gefnogwyd | 2 |
| Nifer yr hybiau cymunedol a grewyd | 0 |
| Nifer y rhanddeiliaid a gafodd eu cynnwys | 51 |
| Nifer y cyfranogwyr a gefnogwyd (digwyddiadau codi ymwybyddiaeth yn unig) | 239 |

| Deilliannau | Cyflawnwyd |
|---|---|
| Nifer y swyddi a grewyd | 1.26 |
| Nifer y cymunedau sy'n elwa | 6 |
| Nifer y busnesau sy'n elwa | 2 |

## Manylion Cyswllt y Prosiect

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â: Kerry Mills Kerry.seed@ashfieldce.org.uk
www.ashfieldce.org.uk

## Logos Partneriaid/ Arianwyr Cyfatebol

## Manylion y Prosiect

| Data Allweddol | Manylion y Prosiect |
|---|---|
| Cyflwynwyd gan: | Seed to Saucepan, Ashfield |
| Dyddiad Dechrau: | 1 Ebrill 2017 |
| Dyddiad Diwedd: | 31 Hydref 2019 |
| Thema LEADER: | 1: Ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol ac adnoddau naturiol a diwylliannol |

## Manylion Ariannol

| Disgrifiad | Swm | % |
|---|---|---|
| Cyfanswm y Gwariant: | £53,766.15 | 100.00% |
| Nawdd y Gronfa Datblygu Gwledig: | £40,230.04 | 74.82% |
| Nawdd Cyfatebol: | £13,536.11 | 25.18% |

Astudiaeth achos wedi'i chwblhau ar: 7.2.2019

# Astudiaeth Achos o waith a gynhaliwyd gydag Ysgol Gynradd Cefnllys

## Cyflwyniad

Mae Ysgol Gynradd Cefnllys yn nhref leol Llandrindod a leolir ger prosiect *Seed to Saucepan.* Daeth Andrea, Cynorthwyydd Cefnogi Dysgu o'r ysgol, i weld y tîm *Seed to Saucepan* o ran hen blot rhandir a ddefnyddiwyd gan yr ysgol ychydig flynyddoedd yn flaenorol. Roedd ganddi syniad gwych o gynnwys disgyblion blwyddyn 6 i ddysgu sut i dyfu llysiau o hadau ac i greu a bwyta pryd o fwyd iachus gyda'r hyn a dyfwyd ganddynt.

Cyfarfu Lucy, ein garddwr gydag Andrea i benderfynu pa blot fyddai'n fwyaf addas iddynt. Roedd plot delfrydol oedd wedi cael ei chwynu a'i wrteithio'n dda gyda gorchudd drosto ers yr Hydref blaenorol, y gellid ei ddefnyddio gydag ychydig o waith paratoi ychwanegol.

Daeth y dosbarth cyfan gydag Andrea, ynghyd â Mr Mann, athro wedi ymddeol, draw i'r rhandir dros 3 wythnos ym mis Chwefror 2019, gan ddod â 10 o blant gwahanol pob wythnos. Roeddynt yn helpu i baratoi'r ddaear ac aethant i sied potio Ashfield i blannu hadau ar gyfer cennin, ffa, letys a gorfetys. Anfonwyd y byrddau hadau yn ôl i'r ysgol er mwyn i'r plant ofalu amdanynt. Pan oeddynt yn barod, cafodd y planhigion ifanc eu plannu yn y rhandir. Bu Andrea a Mr Mann yn ymweld â'r safle yn achlysurol i weld sut yr oedd llysiau yn y rhandir yn tyfu.

Roedd yr hadau wedi goroesi'r gaeaf ac wedi tyfu a ffynnu yn y gwanwyn pan dyfodd y llysiau'n wych, gyda'r plant yn eu cynaeafu ar brynhawn heulog. Roedd grŵp o athrawon wedi cefnogi'r plant wrth dorri'r llysiau a phlicio eu tatws ar y rhandir, gan greu cawl llysiau bendigedig. Roedd yr holl blant wedi ei fwyta'n frwdfrydig, gan deimlo'n gyffrous am yr hyn yr oeddynt wedi cymryd rhan ynddo.

## Yr Her

- A fyddai'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgaredd y tu allan i'r ysgol ac a fyddai diddordeb ganddynt mewn tyfu a choginio'r bwyd yr oeddynt wedi'i blannu, gan nad oeddynt wedi cael yr her hon o'r blaen. Dywedodd Lucy, y Garddwr nad dyma oedd yr achos. "Roedd pob grŵp wedi ymgysylltu'n llwyr; roedd yn galonogol i'w weld ac yn twymo'r galon. Roedd ganddynt ddiddordeb mawr mewn unrhyw anifeiliaid a welwyd o'u hamgylch hefyd, fel pryfaid genwair a thrychfilod."

- Roedd y gyllideb wastad yn her wrth greu syniadau newydd, felly roedd ein Prosiect wedi cyfrannu rhai o'r byrddau hadau a chompost, tra bo'r ysgol wedi prynu'r hadau tatws, gyda Lucy yn cynghori ar faint i'w brynu.

## Yr Ateb

Anogaeth a brwdfrydedd: Roedd y plant mor hapus i fod allan yn yr awyr agored gan ei fod yn weithgaredd dysgu gwahanol iawn iddynt ac roeddynt wedi ymgysylltu’n dda iawn gyda’r holl broses o ddysgu, gan eu harwain at gasglu’r llysiau a’u coginio.

## Y Budd

Roedd buddion y prosiect yn anferth i’r plant a’r staff. Roedd yn wych iddynt fod mewn amgylchedd dysgu yn yr awyr agored, gan ddysgu sut i ddefnyddio offer gwahanol yn yr ardd a’r gegin. Roedd yn dda hefyd iddynt drafod y cysylltiad gyda’u rhieni a’u neiniau a’u teidiau sydd hefyd yn hoffi tyfu llysiau neu fod yn yr awyr agored, ynghyd â’r ffordd mae bod yn yr awyr agored yn gwneud i chi deimlo’n dda iawn.

Rhannodd un bachgen ifanc fod “ei daid yn tyfu llysiau a’i fod yn gwerthfawrogi’r holl waith caled yr oedd tyfu’r llysiau yn ei olygu nawr”.

## Y Canlyniad

Deilliant positif o’r prosiect oedd bod y plant yn dysgu sut i goginio stiw cartref gan eu bod yn gallu gweld eu bod yn tyfu bwyd eu hunain ac yn gallu arbed arian trwy wneud hyn. Roeddynt yn gallu gweld yr hyn sydd ar gael iddynt – yn hytrach na bwyd tun mewn archfarchnadoedd.   Gydag ymateb mor wych oddi wrth y plant, mae’r ysgol wedi cytuno i gael rhandir ar dir yr ysgol.

Canlyniad gwych a phositif iawn yn gyffredinol i syniad rhagorol!

Dyddiad y cafodd yr Astudiaeth Achos ei chwblhau: 09.12.2019

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru Welsh Government